# Bwletin y Farchnad HCC

Gorffennaf 2021

**Yn ddiweddar, mae Defra wedi rhyddhau ffigurau trwybwn lladd-dai'r DU ar gyfer mis Mehefin, ac felly mae bellach yn bosibl adolygu lefelau trwybwn ar gyfer hanner cyntaf 2021, a sut y gallai'r cyflenwad fod wedi effeithio ar brisiau gât y fferm. Bydd Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych ar y ffigurau hyn yn fanylach.**

## CIG EIDION A CHIG LLO

*Trwybwn gwartheg y DU ar ei isaf ers 2015, yn* **1.3miliwn pen**

Ar gyfer hanner cyntaf (H1) 2021, cyfanswm trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU oedd 1.3miliwn pen, yn ôl y ffigurau diweddaraf a ryddhawyd gan Defra. O'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach, mae hyn 4.3% (neu 59,700 pen) yn is, a dyma'r isaf a gofnodwyd ers hanner cyntaf 2015. Byddai'r cyflenwad tynn hwn mewn gwartheg wedi rhoi cefnogaeth i'r prisiau gât fferm cadarn a welwyd yn ystod chwe mis cyntaf 2021.

Gostyngodd trwybwn gwartheg llawn-dwf o 4.1% i 306,300 pen yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, a chyfrannodd hyn at y gostyngiad cyffredinol yng nghyfanswm y gwartheg a laddwyd. Ar gyfer gwartheg dethol yn unig, mae'r trwybwn yn 995,700 pen ar gyfer H1 2021 – gostyngiad o 2.9% (neu 30,100 pen) ar lefelau blwyddyn ynghynt, ond yn debyg i'r trwybwn a gofnodwyd yn ystod 2019. Cofnododd bustych a heffrod ostyngiad blwyddyn ar flwyddyn yn y niferoedd (i lawr 3.7% a 2.8%, yn y drefn honno) tra bod teirw ifanc wedi cofnodi rhywfaint o gynnydd yn nifer y trwygyrch (cynnydd o 0.6%). Roedd y cymysgedd lladd gwartheg dethol yn debyg o ran yr hyn a welwyd yn 2020 gyda 50% o'r anifeiliaid yn fustych, tra bod heffrod a theirw ifanc yn cynrychioli 41% a 9% o'r gymysgedd, yn y drefn honno. Er bod mwy o deirw ifanc yn cynyddu, roedd pwysau carcasau cyfartalog yr anifeiliaid hynny hefyd 6.1kg yn drymach ar gyfartaledd o 347.3kg y pen. O ganlyniad i ostyngiad mewn trwybwn, roedd cyfanswm y cynhyrchiant cig eidion a chig llo yn y DU ar gyfer H1 2021 yn 447,100 tunnell – i lawr 2.9% ar lefelau blwyddyn gynharach, a'r lefel cynhyrchu isaf a gofnodwyd ers H1 2018.

## CIG DEFAID

*Trwybwn ŵyn y DU yn ystod H1 2021* **i lawr 8.8%** *ar y flwyddyn*

Mae trwybwn ŵyn dethol yn ystod pob mis hyd yma yn 2021 wedi bod yn cofnodi islaw lefelau blwyddyn ynghynt. O ganlyniad, roedd cyfanswm nifer yr ŵyn mewn lladd-dai yn y DU yn ystod H1 2021 wedi gostwng 8.8% (neu 491,000 pen) ar y flwyddyn, i 5.1miliwn pen. Dyma'r lefel isaf o drwybwn ers H1 2012, tra bod pwysau carcasau cyfartalog yr ŵyn ychydig yn drymach ar 20.3kg (0.2kg yn drymach na lefelau blwyddyn ynghynt). Roedd y gostyngiad yn nifer yr ŵyn yn ystod H1 2021 i'w ddisgwyl oherwydd maint y cnwd ychydig yn llai, ynghyd â'r nifer cynyddol o ŵyn a ddaeth ymlaen yn ystod diwedd 2020 cyn y dyddiad cau ar gyfer Brexit. Mewn modd tebyg i wartheg; mae'r cyflenwad tynn o ŵyn wedi rhoi rhywfaint o gefnogaeth i brisiau gât y fferm.

Roedd trwybwn mamogiaid a hyrddod difa yn ystod H1 hefyd yn sylweddol is na lefelau blwyddyn yn gynharach - i lawr 24.1% i 521,600 pen. Er gwaethaf y gostyngiad yn nifer y defaid llawn-dwf a oedd yn dod ymlaen, roedd pwysau cyfartalog carcasau tua 1.7kg yn drymach na'r llynedd, ar 28.0kg y pen. O edrych ar gyfanswm trwybwn defaid ac ŵyn, mae'r niferoedd wedi gostwng 10.4% (neu 656,400 pen) ar y flwyddyn, i 5.6miliwn pen. O ganlyniad, mae cyfanswm y cynhyrchiant cig defaid hyd yma yn 2021 yn 118,600 tunnell. Mae hyn wedi gostwng 9.5% ar lefelau blwyddyn ynghynt, a dyma'r cyfaint isaf a gynhyrchwyd yn ystod cyfnod H1 ers 2010.


## CIG MOCH


*Trwybwn moch y DU yn ystod H1 2021 ar* **lefelau hanesyddol uchel**

Cyfanswm trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU yn ystod H1 2021 oedd 5.8miliwn pen. Mae hyn yn 6.8% (neu 370,500 pen) yn fwy na 6 mis cyntaf 2020, ac mae'n lefel hanesyddol uchel o foch i'w prosesu yn ystod y cyfnod H1. Roedd nifer y moch heb fagu a laddwyd yn 5.7miliwn pen am y cyfnod - cynnydd o 6.8% (362,200 pen) ar lefelau blwyddyn ynghynt, a hefyd 8.1% yn uwch na H1 2019. Roedd trwybwn hychod a baeddod llawn-dwf mewn lladd-dai yn y DU hefyd wedi cynyddu ar y flwyddyn (7.0%) i 126,300 pen. Mae'r cynnydd sylweddol mewn trwybwn moch yn ystod H1 wedi arwain at gynnydd o 9.4% yng nghyfanswm y cig moch yn ystod y cyfnod i 519,500 tunnell.

## ADRODDIAD NEWYDD AR WYBODAETH Y FARCHNAD

Yn ddiweddar, mae HCC wedi rhyddhau adroddiad sy'n edrych ar y cyflenwad o wartheg ym Mhrydain Fawr yn ystod y tymor byr a'r tymor hir, ynghyd ag effaith bosibl y cyflenwad ar y farchnad cig eidion. Gellir lawrlwytho'r adroddiad llawn, 'Cyflenwad Cig Eidion – Diweddariad a Rhagolwg 2021' o wefan HCC yma: **https://meatpromotion.wales/en/news-industry-info/market-analysis**









## GWARTHEG

Roedd y pris cyfartalog ar gyfer yr holl wartheg dethol yng Nghymru a Lloegr yn 222.0c/kg am yr wythnos a ddaeth i ben ar 17 Gorffennaf – i fyny 1.2c ar yr wythnos. Mae'r pris presennol yn parhau i fod yn gryf o'i gymharu â chyfartaleddau hanesyddol, ac mae bron 25c yn uwch na lefelau blwyddyn gynharach, a 34c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2016-20: 187.7p/kg). Ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 17 Gorffennaf, roedd y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych yn 397.9c/kg – sef yr un peth a'r wythnos cynt ac 34c yn uwch na lefelau blwyddyn ynghynt. Y prisiau pwysau marw ar gyfer heffrod oedd 397.2c/kg (+1.0c ar yr wythnos), roedd teirw ifanc yn 393.3c/kg (+1.5c), a gwartheg difa yn 289.0c/kg (-0.4c).

Roedd cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU yn 214,000 pen ar gyfer mis Mehefin – i lawr 8.2% ar Fehefin 2020, ac 1.1% yn is na'r mis cyfatebol yn 2019. Roedd trwybwn gwartheg dethol ar gyfer y mis wedi gostwng 4.2% ar y flwyddyn, i 163,300 pen, gyda bustych a heffrod yn sbarduno'r dirywiad hwn. Roedd trwybwn teirw ifanc wedi cynyddu 0.3%, gyda ffigurau'n dangos bod eu pwysau carcas cyfartalog hefyd 6.4kg yn drymach na lefelau blwyddyn yn gynharach ar 356.7kg. Roedd trwybwn y gwartheg llawn-dwf wedi gostwng 21.0% ar y flwyddyn i 46,200 o'r pen. Roedd cynhyrchiant cig eidion ar gyfer mis Mehefin i lawr o 7.9% o'i gymharu â'r flwyddyn gynt oherwydd y cyflenwad tynn o wartheg.









## DEFAID

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae'r Dyfynbris Ansawdd Safonol (SQQ) cyfartalog ar gyfer ŵyn dethol mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru wedi bod yn gogwyddo'n nes at y lefelau a welwyd y llynedd. Ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 17 Gorffennaf, cynyddodd y cyfartaledd 15.3c ar yr wythnos i sefyll ar 257.2c/kg. Mae hyn 35.3c yn uwch na lefelau blwyddyn gynharach, a 61.3c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2016-20: 196.0p/kg). Roedd prisiau mamogiaid difa mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru ar gyfartaledd yn £74.20/ pen – gostyngiad o £2.10 ar yr wythnos flaenorol, ond £13.00 yn uwch na lefelau blwyddyn ynghynt. Roedd prisiau ŵyn pwysau marw ym Mhrydain Fawr yn 548.5c/kg am yr wythnos a ddaeth i ben ar 17 Gorffennaf (+68.6c ar y flwyddyn).

Cyfanswm trwybwn defaid yn lladd-dai'r DU oedd 962,100 pen ar gyfer mis Mehefin – i lawr 12.5% ar y flwyddyn. O fewn hyn, roedd trwybwn ŵyn wedi gostwng 11.0% i 881,100 pen, tra bod trwybwn mamogiaid a hyrddod difa wedi gostwng 26.5% i 81,000 pen. Cyfartaledd pwysau carcasau ŵyn yn ystod mis Mehefin oedd 19.8kg (yn debyg i fis Mehefin y llynedd), tra bod pwysau carcasau difa cyfartalog yn 29.5kg – bron 2kg yn drymach na lefelau blwyddyn ynghynt. O ganlyniad i'r gostyngiad yn nifer y cig defaid a gynhyrchwyd yn ystod mis Mehefin, gostyngodd cyfanswm y cig defaid a gynhyrchwyd yn ystod mis Mehefin 12.4% ar y flwyddyn i 19,800 tunnell.




## MOCH

Mae prisiau moch wedi parhau gyda'u momentwm cynyddol sydd wedi'i brofi ers sawl mis, gyda'r Pris Holl Foch Prydain (APP) ar fanyleb yr UE diweddaraf ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 10 Gorffennaf yn cynyddu 0.8c ar yr wythnos i 164.3c/kg. Mae'r bwlch rhwng eleni a phrisiau uchel y llynedd wedi parhau i leihau, gyda'r cyfartaledd presennol ond 4.4c yn is na lefelau'r flwyddyn flaenorol. Y pris presennol yw'r cyfartaledd uchaf a gofnodwyd ers mis Medi y llynedd, ac mae yn 9.5c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2016-20: 154.8p/kg). Mae adroddiadau diwydiant yn awgrymu bod y galw cadarn mewn siopau yn rhoi cymorth i brisiau cyfredol, er y gallai proffidioldeb gael ei lesteirio gan y costau porthiant cynyddol.

Roedd cyfanswm y trwygyrch moch mewn lladd-dai yn y DU yn 1.0 miliwn pen ar gyfer mis Mehefin – cynnydd o 18.4% ar y flwyddyn, a 22.0% yn uwch na mis Mehefin 2019. Cafodd y cynnydd ar y flwyddyn ei sbarduno'n bennaf gan 152,600 o foch glân ychwanegol yn dod ymlaen, tra bod pwysau cyfartalog eu carcasau 0.8kg yn drymach ar y flwyddyn ar 86.4kg. Cynyddodd trwygyrch hychod a baeddod o bron i 24.1%, tra bod eu pwysau carcas cyfartalog hefyd yn drymach na lefelau blwyddyn yn gynharach (cynnydd o 1.5kg). Arweiniodd y cyfuniad o drwygyrch uwch a phwysau carcasau cyfartalog trymach at gynnydd o bron i 20% mewn cynhyrchiant porc yn ystod mis Mehefin, sef 88,600 tunnell.